# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 3

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

*Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru*

### 78 Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru

(1) Mae'r pwerau a roddir gan yr adran hon yn arferadwy gan Weinidogion Cymru os ydynt wedi eu bodloni bod GCC—

(a) wedi methu heb esgus rhesymol â chyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu

(b) wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 77 mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi datganiad sy'n datgan bod GCC wedi methu, a

(b) cyfarwyddo GCC i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, mewn unrhyw fodd ac o fewn unrhyw gyfnod neu gyfnodau, a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Os yw GCC yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (2)(b), caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyflawni'r swyddogaethau y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hwy eu hunain, neu

(b) gwneud trefniadau i unrhyw berson arall gyflawni'r swyddogaethau hynny ar eu rhan.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru. (See end of Document for details)*

(4) O ran cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(b)—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd dilynol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 78 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)** |
| **I2** | A. 78 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(b)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.) |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru.